Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Aelodau o'r teulu

31 Ionawr 2023

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 20 Ionawr, pan wnaethoch ofyn:

> *Please detail your enquiry: I have tried the Wales Government FoI office for current information regarding how many AM's have family members in their employ. As a result of their email response I am making the same request to your department as instructed*

Mae ein hymateb i'w gael isod.

Mae enwau Aelodau o'r Senedd sydd ar hyn o bryd yn cyflogi aelodau o'r teulu yn cael eu cyhoeddi ar **Gofrestr Buddiannau'r Aelodau**. Mae enw'r cyflogai, ei berthynas â'r Aelod o'r Senedd, ei swydd, dyddiadau cyflogaeth ac oriau contract hefyd yn cael eu cyhoeddi.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler paragraff 7.6 (Cyflogi aelodau o'r teulu) o'r **Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau: 2022-23 (senedd.cymru)**

Gan fod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Yn gywir

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN